Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru
Archives and Records Council Wales

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2007 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Presennol: E. Bennett (Prifysgol Abertawe, Cadair); J. Spence (RhAC); G. Jenkins (LlGC); H. Palmer (Ceredigion); E. Jones (CyMAL); M. Ellis (CyMAL); S. Edwards (Morgannwg); K. Collis (Gorllewin Morgannwg); C. Orr (Penfro); H. Malaws (CBHC); S. Davies (CyA); C. Harrington (Fflint); K. Matthias (Dinbych); A. Prescott (PC Llambed); E. Thomas (Prifysgol Bangor); G. Parry (LlGC).

1 Croeso

Estynnodd y Gadair groeso cynnes i'r cyfarfod gyda chynulleidfa dda yn bresennol ac yn enwedig i Steven Davies fel cynrychiolydd newydd Cymdeithas yr Archifyddion ac i Jackie Spence fel Rheolwr Rhaglen Archifau Cymru Archives Wales. Esboniodd y Gadair hefyd fod eitem newydd wedi'i hychwanegu at yr agenda (Eitem 10)

2 Ymddiheuriadau

A. Rhydderch (Gwynedd); A. Venables (Môn); J. Davies (Caerfyrddin); C. Richards (Powys); A. Rowley (AG); G. Evans (AOCC); J. Archer (Prifysgol Aberystwyth); L. Burrow (Prifysgol Caerdydd).

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2007 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar wahân i'r newid canlynol :

Cofnod 13: Dyddiad y cyfarfod nesaf

Newid dydd Gwener 10 Gorffennaf i ddydd Mawrth 10 Gorffennaf.

4 Materion yn codi o'r cofnodion

4.1 Adroddiad y Swyddog Ymchwil a Datblygu

Gofynnodd JS a fyddai modd i Andrea Johnson gael mynediad i'r setiau o ddata amrwd. Dywedodd y Gadair y byddai'n cael mynediad.

5 Archifau Cymru Archives Wales (ACAW)

5(i) Adroddiad y Rheolwr Rhaglen

Rhoddodd JS grynodeb o'r adroddiad cynnydd manwl yr oedd wedi'i osod yn ofod gwaith cydweithredol GRhP ACAW.

1 Penodwyd dau ymgynghorydd, Andrea Johnson (Gofynnwch i'r Bobl) a Chris Turner (Cyfrifuaduro Cymdeithasol).
2 Yr oedd wedi sefydlu amgylchfyd gydweithredol i'r GRhP ac i dîm y prosiect.
3 Bu ei thrip i Ganada yn fuddiol. Yr oedd wedi cwrdd â phymtheg archifydd amrywiol a sefydliadau archifol. Yr oedd yna debygrwydd rhwng Cymru a Chanada, e.e. dwyieithrwydd, strategaeth ranbarthol/cenedlaethol. Byddai'n cadw mewn cysylltiad gyda'r rhai a gwrddodd yng Nghanada ac a ddangosodd ddiddordeb yn ACAW. Bydd adroddiad ysgrifenedig yn dilyn.
4 Byddai'n trefnu diwrnod cwrdd i ffwrdd i'r GRhP yn yr AG i ddysgu o'u profiadau fel defnyddwyr.
5 Yr oedd EJ a hithau ar fin dechrau ar eu taith o gwmpas yr archifdai.

6 Cyflwynwyd y cais Annog Addysg i CyMAL i'w ystyried.
7 Trefnwyd cyfarfod prosiect rhyngddi hithau, Andrea Johnson a Chris Turner i'w gynnal yfory (11 Gorffennaf).
8 Yr oedd i siarad yng nghyfarfod Cymdeithas Archifwyr Cymru ar ddydd Gwener 13 Gorffennaf.

5 (ii) Catalog Cymru (cylchredwyd adroddiad)
Nid oedd Martin Locock a Gareth Haulfryn Williams wedi cwrdd i drafod adroddiad terfynol Cam 2 y prosiect oherwydd ymrwymiadau eraill. Rhaid cwblhau'r adroddiad cyn y gellir dechrau ar Gam 3 a rhaid cyflwyno cais ariannu Cam 3 yr haf hwn.
Cytunwyd i drafod y mater yn y GRhP i'w gynnal yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

Cododd GJ y pwynt olaf yn yr adroddiad a gylchredwyd, hynny yw cyfrinachedd cronfa ddata'r prosiect ac os ydyw'n cydymffurfio gyda gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Atebodd GP gan fod partneriaid RhAC i gyd yn gyrff cyhoeddus, a gan fod y prosiect wedi'i ariannu gan CyMAL sydd hefyd yn gorff cyhoeddus, yna fe fyddai'r gronfa ddata yn cwympo o fewn y Ddeddf.
Cytunwyd y byddai JS yn e-bostio'r partneriaid i gyd i holi os oedd unrhyw bryderon neu wrthwynebiadau am ddiffyg cyfrinachedd.

5 (iii) RhAC (cylchredwyd adroddiad)
Adroddodd y Gadair fod tri Archifdy (Môn, Penfro a Chonwy) wedi cytuno i brofi mudo data o RhAC i CALM a diolchodd iddynt am wirfoddoli. Gofynnodd SE pryd fyddai'n bosibl trosglwyddo'r data'n rhwydd. Atebodd JS y byddai hyn yn dibynnu ar ganlyniadau profi cyfredol. Nododd SD fod modd copïo a phastio o RhAC i CALM. Cytunodd GP, ond nododd nad oedd yn bosib copïo a phastio ffeiliau awdurdod neu greu dolenni i'r disgrifiadau perthnasol.

6 Diwrnod Strategaeth
Ymddiheurodd y Gadair am yr oedi a fu i gynnal y Diwrnod Strategaeth, ond dywedodd ei fod yn bwysig cynllunio'n iawn. Aethpwyd at sawl hwylusydd ac ar y funud olaf gwrthododd hwylusydd a oedd wedi cytuno i hwyluso yn y lle cyntaf. Adroddodd JS fod Gwenda Williams wedi cytuno i hwyluso ond roedd ei chostau gryn dipyn yn uwch na'r amcangyfrif blaenorol. Y cyfanswm yn awr fyddai £2161 a byddai CACC yn cyfrannu £1661 ac yn cyflwyno cais am grant gan CyMAL am y £500 a oedd yn weddill. Esboniodd y Gadair y byddai papurau'n cael eu cylchredeg cyn y Diwrnod Strategaeth i annog a hysbysu cyfraniadau, dadlau a chyfranogaeth. Gwahoddir aelodau CACC ac uwch reolwyr ynghyd â staff o CyMAL. Amlinellodd y Gadair y rhaglen arfaethedig fel a ganlyn: Bydd Andrea Johnson yn rhoi papur yn y bore a dilynir hyn gan nifer o sesiynau trafod a fydd yn penderfynu ar flaenoriaethau, rhaid mai ACAW fydd un ohonynt. Cynhelir arolwg ar ddiwedd y gweithrediadau yn ogystal â thynnu casgliadau. Llunnir y strategaeth wedyn o'r casgliadau. Esboniodd y Gadair ymhellach y byddai'r gweithrediadau'n cael eu cofnodi. Bydd yr hwylusydd hefyd yn llunio adroddiad annibynnol ar weithrediadau'r diwrnod. Hysbysodd JS y cyfarfod fod tri dyddiad posib ar gael: 4, 17 a 18 Medi, y tri hyn i gyd yn peri problemau
Cytunwyd i gynnal Diwrnod Strategaeth ar 18 Medi

Gofynnodd GJ os fyddai gweithrediadau'r diwrnod yn cael eu cynnal gan ddilyn rheolau Chatham House, h.y. heb gyfeirio at gyfraniadau unigol.
Cytunwyd i gynnal y gweithrediadau gan ddilyn rheolau Chatham House.

7 Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (cylchredwyd adroddiad)

Mynychodd SE y Panel Cenedlaethol ar 29 Mehefin. Cafwyd llawer o drafodaeth ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus er bod y parth archifau'n derbyn hyfforddiant DPP yn barod.Mynychwyd y cyfarfod gan Arthur Emyr, cynrychiolydd o'r Gemau Olympaidd a oedd yn awyddus i Gymru elwa o'r digwyddiad. Cafodd ei blesio'n fawr gan yr Olympiad Diwylliannol y gobeithia LLUK fod yn rhan ohono. Awgrymodd AP ein bod yn cysylltu â Michael Moss o Glasgow tra awgrymodd ME y dylem hefyd gysylltu ag Isobel Siddons sydd wedi'i secondio'n llawn amser i weithio ar Olympic Record. Cytunodd AP i edrych ar unrhyw ddulliau eraill posibl o godi arian**.**
Anogodd SE bartneriaid i ymateb i Fframwaith LLUK. Mynegodd ME bryderon difrifol am y Fframwaith. Trefnwyd cyfarfod ar 24 Gorffennaf i drafod archifau a rheoli cofnodion ac mae'n bosib na fydd dim yn mynd ar y wefan (gweler adroddiad SE a gylchredwyd).

8 Adroddiadau'r Swyddogion

8.1 Adroddiad y Gadair

Roedd hi wedi cadeirio ac wedi trefnu cyfarfodydd ACAW a'r Diwrnod Strategaeth drwy anfon cryn nifer o e-byst ac roedd yn monitro adroddiadau ar brosiectau a ariannwyd gan CyMAL. Mynychodd gyfarfod Pwyllgor Cynghori LlGC (anfonwyd ei hadroddiad ar e-bost i aelodau)

8.2 Adroddiad yr Ysgrifennydd

Pwyllgor Cynghori CyMAL (cylchredwyd adroddiad).

8.3 Adroddiad yr Is Gadeirydd

Dim i'w adrodd.

Adroddiad y Trysorydd

Derbyniwyd y tanysgrifiadau i gyd ac mae £2901 yn y cyfrif ar hyn o bryd.

9 Newyddion CyMAL

9.1 Arolwg PSQG

Yr oedd CyMAL yn ceisio ariannu partneriaid CACC er mwyn cymryd rhan mewn arolwg PSQG i'w gynnal ym mis Tachwedd a Rhagfyr. Byddai cyllid ar gael hefyd i gyrff cenedlaethol. Byddai pob sefydliad a fyddai'n cyfrannu yn derbyn data ar daenlenni gan y PSQG.

9.2 Cynhadledd CILIP 2008

Bu cynhadledd 2007 yn un llwyddiannus dros ben gyda chynrychiolwyr o sectorau Llyfrgell, amgueddfeydd ac archifau a chynhaliwyd sesiynau ar y cyd yn y bore a sesiynau ar wahân yn y prynhawn. Gwahoddwyd awgrymiadau am thema ar gyfer cynhadledd flwyddyn nesaf. Awgrymodd GJ Olympiad Diwylliannol ac awgrymodd JS cynnwys wedi'i greu gan ddefnyddwyr Archifau Cymru Archives Wales a'i dair haen.

9.3 Cylchgrawn CyMAL

Oedwyd cyhoeddi'r cylchgrawn oherwydd ansicrwydd ynglŷn â phenodi Gweinidog newydd.

9.4 Diwrnod Mesur Amrywiaeth

Yr oedd Diwrnod Amrywiaeth i'w gynnal ar y 18 Medi yn LlGC yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad. Roedd yr adroddiad ar gael ar wefan CyMAL a byddai'n datblygu cynllun gweithredu i ddechrau yn Ebrill 2008.

9.5 Gwerthuso cynllun grantiau CyMAL

Comisiynwyd Andrea Johnson i ysgrifennu adroddiad gwerthuso ar gynllun grantiau CyMAL. Dylid cwblhau draft erbyn diwedd Gorffennaf: bydd yr adroddiad ar gael i aelodau CACC. Gofynnodd KC os oedd rhestri ar gael o'r grantiau a ddyfarnwyd. Atebodd EJ y byddai'n cylchredeg rhestri o'r grantiau a ddyfarnwyd i lyfrgelloedd, amgueddfeydd, archifau ac Annog Addysg.

10 Cymdeithas Archifwyr Cymru.

Adroddodd SD fod y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer dydd Gwener nesaf (13 Gorffennaf). Yr oedd yn gobeithio y gellid cynnal cyfarfod ar y cyd rhwng CyA Cymru a CACC yng Nghaerloyw ym mis Hydref. Roedd y Gymdeithas yn ymdebygu fwy i undeb llafur i aelodau ac yn gadael eiriolaeth i'r Cyngor Cenedlaethol Archifau. Dywedodd SE y dylai CACC fod yn gyfrifol am eiriolaeth gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Yna cododd ET y pwnc o Archifdy Gwladol i Gymru.

Cytunwyd i gynnal cyfarfod ar y cyd gyda CyA Cymru o bosib yn ystod wythnos gyntaf Hydref ar amrywiaeth efallai gan gynnwys adroddiad Katherine Thomas ac astudiaethau achos .

Cytunwyd hefyd yn dilyn trafodaethau mai gwell fyddai cynnal trafodaeth fanwl ar Archifdy Gwladol i Gymru yn y Diwrnod Strategaeth.

11 Unrhyw fater arall

Adroddodd SE y lleolir archifdy newydd Morgannwg ar safle Datblygu Llecwydd sy'n fwy na'r hyn sydd ei wir angen arnynt. Mae Cyngor Sir Caerffili wedi gwneud cais am adeiladu archifdy newydd Gwent ar y safle sydd dros ben gan ystyried uno'r ddau wasanaeth a fyddai'n arbed £5.5 m mewn costau cyfalaf. Mae David Rimmer yn ymwybodol o'r datblygiad hwn ac mae SE a DM yn ceisio trefnu cyfarfod ffurfiol.

12 Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar ddydd Gwener 23 Tachwedd 2007.